# Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd (Busnes)**<br>**Prifysgol Abertawe** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 8 Rhagfyr 2016 |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Diane McCrea (Cadeirydd)<br>Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd)<br>Emyr Roberts (Prif Weithredwr)<br>Ruth Hall<br>Nigel Reader (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg)<br>Andy Middleton<br>Paul Williams (Cadeirydd Pwyllgor Perfformiad a Risg)<br>Chris Blake<br>Howard Davies<br>Zoe Henderson<br>Elizabeth Haywood<br>Karen Balmer |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De<br>Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Niall Reynolds, Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid<br>Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Mynychwyr Ychwanegol:** | Martyn P Evans, Pennaeth Dros Dro Gweithrediadau'r De-orllewin – Eitem 1 ar yr agenda<br>Hamish Osborn, Arweinydd Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol, Abertawe – Eitem 1 ar yr agenda<br>Nick Edwards, Uwch Reolwr Gwarchodfeydd – Eitem 1 ar yr agenda<br>Rob McCall, Uwch Ymgynghorydd Arloesedd – Eitem 3 ar yr agenda<br>Simon Neale, Rheolwr Rheoleiddio'r Dyfodol – Eitem 3 ar yr agenda |

| | |
|---|---|
| **Arsylwyr:** | Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu<br>Howard Davies, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad<br>Conor Powell, Cyfrifydd Prosiect, Cyllid (ar secondiad o'r Gwasanaeth Sifil) |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Geralene Mills<br>Cassandra Hamblett |

## Eitem 1 – Busnes Safonol y Bwrdd

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i'r cyfarfod, yn ogystal â chydnabod sawl aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

2. Nodwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Catherine Smith, Cyfarwyddwr Gofal Cwsmeriaid, Perthnasau Allanol a Chyfathrebu

## Datganiadau o Ddiddordeb

3. Nododd Nigel Reader ei fod yn gweithredu fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion DEFRA, a'i fod hefyd yn gweithredu fel Cadeirydd dros dro i Natural England.

4. Dywedodd Chris Blake ei bod yn bosibl yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Ynni Cymunedol Cymru y bydd yn cyflwyno tendr gyda phartïon eraill ar gyfer gwaith Ynni Adnewyddadwy Coedwig Alwen.

## Cyflwyniad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, Ardal Abertawe

5. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De a Chanolbarth Cymru Martin Evans, Pennaeth Dros Dro Gweithrediadau'r De-orllewin, i'r cyfarfod i sôn am waith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ardal Abertawe.

6. Cyflwynodd Martyn waith y tîm, gan amlygu pa mor bwysig yw ymgysylltu allanol i alluogi CNC i gyflawni mewn perthynas â gofynion Deddf yr Amgylchedd. Rhoddodd Martyn sylw penodol i bwysigrwydd newid y ffordd mae CNC yn gweithio trwy feddwl yn ofodol er mwyn cydgysylltu gweithgareddau.

7. Disgrifiodd Hamish Osborn, Arweinydd Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol Abertawe, y gwaith cadwraeth yn ardal Abertawe a thynnodd sylw at y gwahanol amgylcheddau sy'n cael eu rheoli a'u cefnogi gan CNC. Nododd y Bwrdd brosiect llwyddiannus afon Burry Pill yn rheoli elifion o waith trin carthion a'r dull arloesol oedd yn cael ei ddilyn.

8. Cafwyd cyflwyniad gan Nick Edwards, Uwch Reolwr Gwarchodfeydd, ar hanes llwyddiant cadarnhaol Whiteford, cynefin morfa heli 700 hectar. Mae'r twyni wedi bod yn newid eu siâp yn barhaus dros y 40 mlynedd diwethaf, gyda'r tywod yn symud o'r aber i'r safle. Mae'r amgylchedd newydd wedi arwain at ymddangosiad tegeirian y fign, sy'n brin iawn. Mae CNC wedi bod yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Abertawe a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ledaenu hadau'r tegeirianau, ac mae'r prosiect yn cael ei fonitro'n fanwl.

9. Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i Martyn, Hamish a Nick am y cyflwyniadau, a oedd yn llawn gwybodaeth ac yn dangos sut mae CNC yn cyflawni ei bwrpas ac yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Eitem 2 – Cofnodion a Materion yn Codi

10. Cafodd cofnodion cyfarfod mis Medi eu cadarnhau'n ffurfiol gyda mân newidiadau.
    - Eitem 3, Tudalen 2, rôl Nigel Reader mewn perthynas â'r Cydbwyllgor Gwarchod Natur
    - Eitem 5, ychwanegwch y fannod
    - Tudalen 5, Eitem 25/26, mewnosod pennawd diweddariad Cydbwyllgor Gwarchod Natur
    - Datganiad o Ddiddordeb, eglurhad mewn perthynas â Howard Davies, mae'n derbyn cefnogaeth ac nid yw'n aelod.

## Cofnod o Gamau Gweithredu

11. Cafwyd diweddariad gan Gyfarwyddwr Gweithredol, y Rhaglen Trwyddedu Amgylcheddol, ar Gam Gweithredu 6, a oedd yn cadarnhau y bydd apwyntiad Skype yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfod ar 19 Rhagfyr i drafod camau nesaf y Cynllun Comisiynu.

12. Cam Gweithredu 8 – cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De, fod yr adroddiad wedi cael ei ddosbarthu ar 6 Rhagfyr gan ddarparu diweddariad i aelodau'r Bwrdd.

## Pwyllgorau, Cofnodion a Materion yn Codi

## Pwyllgor Pobl a Thaliadau

13. Cafwyd diweddariad gan Gadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn dilyn y cyfarfod ar 2 Rhagfyr. Roedd y cofnodion wrthi'n cael eu paratoi a byddent yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

14. **Nododd y Bwrdd yr oedi o ran lansio'r cynllun Gwerthuso Swyddi o ganlyniad i anghysondebau penodol a gafodd eu canfod yn hwyr iawn. Bydd ymarfer sicrwydd ansawdd pellach yn cael ei gynnal ar unwaith a bydd**

**amserlen ddiwygiedig yn cael ei llunio. Nododd yr aelodau eu siomedigaeth oherwydd bod y lansiad yn cael ei oedi ar y pwynt hwn yn y broses, ond roeddent yn cydnabod pwysigrwydd cael hyder yn y canlyniadau.**

15. Nododd y Bwrdd y diweddariadau canlynol gan y Pwyllgor:
    - Datblygu Cam 2 y Rhaglen Ffocws ar Gwsmeriaid
    - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth/Rheolaeth
    - Datblygiad cynlluniau Gweithlu Strategol
    - Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch
    - Atebolrwydd Cyflogwr

16. Byddai papur ar ymroddiad CNC i Safonau'r Gymraeg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ionawr 2017.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

17. Cafwyd diweddariad gan Gadeirydd y pwyllgor o gyfarfod 2 Rhagfyr, yn nodi y caiff y cofnodion eu cyflwyno i'w cadarnhau gan y Bwrdd yn y cyfarfod ym mis Ionawr.

18. Roedd y pwyllgor wedi derbyn adroddiad archwilio mewnol a gafodd ei ganmol am ei adolygiad eang o'r gwasanaeth.

19. Nododd y Bwrdd y diweddariadau canlynol gan y pwyllgor:
    - Datblygiad gwaith rheoli risg CNC yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
    - Gwerthusiad Cymhwysedd Ariannol – bydd y Bwrdd yn derbyn diweddariad ar y gwerthusiad yn gynnar yn 2017.
    - Colledion Twyll a Thaliadau Arbennig – nododd y pwyllgor leihad yn nifer yr achosion o dwyll yr hysbyswyd amdanynt.
    - Swyddfa Rheoliadau Gwell – diweddariad ar y camau gweithredu i roi sylw i argymhellion y Swyddfa Rheoliadau Gwell.

20. Cymeradwyodd y pwyllgor yr adolygiad blynyddol o'r Polisi Chwythu'r Chwiban.

21. Roedd y pwyllgor wedi bod yn craffu ar ddatblygiad cyfrifon masnachu, elw a cholledion mentrau a gweithgareddau masnachol CNC. Nododd y Bwrdd y bydd Cadeirydd y pwyllgor a Karen Balmer yn parhau i graffu a goruchwylio'r broses.

22. Derbyniodd y pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Diogelwch a Risg TGCh a chafodd ei sicrhau gan yr amgylchedd rheoli cyffredinol.

23. Cymeradwyodd y pwyllgor ei ymagwedd tuag at Adolygiad o Effeithiolrwydd ar gyfer mis Mawrth 2017 i'w arwain gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

24. Nododd y Bwrdd y diweddariadau a dderbyniwyd.

## Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

25. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod pwyllgor o is-grŵp o aelodau'r Bwrdd wedi cael ei ffurfio i ystyried Prosiectau Llifogydd Cyfalaf CNC, a oedd i fod i gyfarfod yn gynnar ym mis Ionawr 2017.

## Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

26. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a byddai'n ystyried rheolaeth barhaus ardaloedd gwarchodedig.

## Eitem 3 – Taliadau am Wasanaethau Ecosystem (PES) (NRW B B 69.16)

27. Cyflwynwyd Rob McCall, Arweinydd y Tîm Arloesedd, a Simon Neale, Rheolwr Newidiadau Rheoleiddio'r Dyfodol, gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Rhaglen Trwyddedu Amgylcheddol i roi diweddariad i'r Bwrdd.

28. Rhoddodd Arweinydd y Tîm Arloesedd gyflwyniad i'r Bwrdd yn esbonio bod gan CNC bedair rôl sylfaenol i'w cyflawni: darparwr gwasanaeth, prynwr, rheoleiddiwr a hwylusydd, a oedd yn cyflwyno ystod eang o opsiynau o safbwynt Taliadau am Wasanaethau Ecosystem. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried datblygu dull seiliedig ar y pedair rôl.

29. Croesawyd y cyflwyniad gan y Bwrdd ac awgrymwyd y dylid ystyried pumed rôl fel ymgynghorai/cynghorydd statudol i awdurdodau cynllunio a datblygwyr. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad mewn chwe mis. Nododd y Bwrdd y cysylltiad â gwaith Brexit a oedd ar gychwyn a'r angen i ddatblygu ar y cyd er mwyn manteisio i'r eithaf ar ganlyniadau.

***CAM GWEITHREDU – Cyfarwyddwr Gweithredol y Rhaglen Trwyddedu Amgylcheddol i roi briff diweddaru i'r Bwrdd cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.***

30. Croesawodd y Bwrdd y cyflwyniad diddorol ac addysgiadol a chymeradwyodd y papur a gyflwynwyd. Cafodd aelodau'r Bwrdd eu hannog i barhau'r drafodaeth gyda'r tîm dros e-bost.

***CAM GWEITHREDU – Gofynnwyd i Dîm CNC ddatblygu tudalennau mewnrwyd ac ar y rhyngrwyd i rannu gwybodaeth a datblygiadau mewn perthynas â'r Rhaglen Trwyddedu Amgylcheddol yn fewnol i CNC ac yn allanol er mwyn rhoi enghreifftiau penodol ac esbonio'r gwaith datblygol hwn ymhellach.***

## Cinio

31. Cafodd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Dadansoddi, a'r cyfleoedd yr oedd labordy CNC newydd ar Gampws Singleton yn eu darparu i CNC a Phrifysgol Abertawe, ei lofnodi'n ffurfiol gan Brif Weithredwr CNC a'r Athro Steve Wilks o Brifysgol Abertawe yn ystod cinio.

## Eitem 4 – Papur Cyllid (NRW B B 70.16)

32. Cafwyd cyflwyniad i'r Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar sefyllfa'r flwyddyn hyd yn hyn. Nododd y Bwrdd fod adolygiad cyllideb hanner blwyddyn wedi cael ei gwblhau ym mis Hydref a bod cyllidebau wedi cael eu diwygio fel yr oedd yn cael ei adlewyrchu yn y papur.

33. Nododd y Bwrdd yr arbedion o £2 filiwn o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, lleihad mewn costau staff o ganlyniad i'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol diweddar ac incwm ychwanegol o godiad ym mhrisiau gwerthiannau coed.

34. Cymeradwywyd y gyllideb ddiwygiedig yn ffurfiol gan y Bwrdd.

***CAM GWEITHREDU – Diweddaru'r papur ar baragraff 11 a chywiro'r gair 'trawsosodwyd'***

35. Nododd y Bwrdd y gwaith craffu parhaus gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a nodwyd fod y papur wedi cael ei gyflwyno.

## Eitem 5 – Adroddiad y Cadeirydd (NRW B B 72.16)

36. Nododd y Bwrdd adroddiad ysgrifenedig o waith ymgysylltu allanol y Cadeirydd a phresenoldeb y Cadeirydd mewn cyfarfodydd rheolaidd ag Ysgrifennydd y Cabinet a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.

***CAM GWEITHREDU – Gofynnodd y Cadeirydd i bob aelod o'r Bwrdd hysbysu'r Ysgrifenyddiaeth am bob digwyddiad allanol a mewnol a fynychir ganddynt er mwyn gallu cynnal Calendr Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.***

37. Nododd y Cadeirydd ei chyfarfod â Chadeirydd newydd Asiantaeth yr Amgylchedd, Emma Howard Boyd, ac awgrymwyd y dylid ceisio cyfleoedd i'r Bwrdd ei chyfarfod hi ac aelodau eraill Bwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

38. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De ei fod wedi mynychu cyfarfod Llais y Goedwig, lle y cynhaliwyd trafodaethau am strategaethau ar gyfer rheoli coetiroedd CNC a sut y gallai CNC ddod â phrosiectau coetir cymunedol at ei gilydd.

39. Cadarnhaodd Ruth Hall, aelod o'r Bwrdd, ei bod wedi cynrychioli CNC mewn cyfarfod diweddar o Gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

## Eitem 6 – Adroddiad y Prif Weithredwr (NRW B B 72.16)

40. Wrth dderbyn ei adroddiad, nododd y Bwrdd weithgareddau diweddar y Prif Weithredwr gyda sefydliadau iechyd a thrafodwyd buddiannau'r amgylchedd naturiol i iechyd corfforol yn ogystal â meddyliol.

41. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at ei ymweliad ag Ymddiriedolaeth Cwm Elan a dywedodd fod gwaith cadarnhaol y prosiect a oedd yn cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri wedi gwneud argraff arno.

## Eitem 7 – Adroddiad Diweddaru Lles, Iechyd a Diogelwch (NRW B B 73.16)

42. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, adroddiad cyfredol i'r Bwrdd. Mae lefel absenoldeb o'r gwaith oherwydd problemau iechyd meddwl yn dal i fod yn achos pryder; nododd y Bwrdd y dulliau oedd ar waith i reolwyr gefnogi staff a cheisio cefnogaeth ychwanegol gan Gynghorwyr Iechyd Galwedigaethol CNC.

43. Nododd y Bwrdd y gwaith datblygu yr oedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn ei wneud i gaffael dyfais i helpu i atal digwyddiadau Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich.

44. Nododd y Bwrdd fod nifer y digwyddiadau trwch blewyn a oedd yn cael eu hysbysu yn gymharol isel yn y sefydliad a nododd waith yr adran Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl yn codi proffil hysbysu am ddigwyddiadau trwch blewyn fel cyfle i ddysgu'n gadarnhaol ac i symleiddio'r broses hysbysu.

45. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, y camau a gymerwyd gan CNC i roi sylw i faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli). Roedd nifer o weithgareddau ar safleoedd coetir wedi cael eu hadolygu i sicrhau bod camau i sicrhau cydymffurfiaeth yn cael eu rhoi ar waith.

46. Tynnodd y Bwrdd sylw at absenoldeb digwyddiadau gyrru a gofnodwyd yn yr adroddiad a cheisiodd ddiweddariad gan Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl.

47. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad a Risg yn cynnal trosolwg o faterion Iechyd a Diogelwch ochr yn ochr â'r gwaith o fonitro hysbysu am absenoldebau ac atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol. Rôl Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch y Bwrdd?

***CAM GWEITHREDU – Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl i ddatblygu a dosbarthu nodyn briffio ar ddigwyddiadau gyrru.***

## Eitem 8 – Gorffen y cyfarfod

48. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i'r Tîm Gweithredol, yr Ysgrifenyddiaeth, Prifysgol Abertawe ac eraill ynghlwm â'r trefniadau ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.

## Cwestiynau Cyhoeddus

Ar ôl cau cyfarfod ffurfiol y Bwrdd, gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Cadarnhaodd y rhai oedd yn bresennol pa mor ddefnyddiol fu mynychu'r cyfarfod a gofynnwyd sawl cwestiwn penodol. Mae'r cwestiynau hyn, ynghyd â'r atebion, i'w gweld yn Atodiad 1.

## Atodiad 1 – Cwestiynau Cyhoeddus:

*Gareth Wardell ar ran Forest Holidays - roedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cymeradwyo'r cais am gabanau gwyliau yn y goedwig ar safle Garwnant CNC ar 14 Tachwedd. Roedd y cynnig wedi derbyn 63 llythyr cefnogi. Dywedodd Gareth ei fod yn edrych ymlaen at weithio gydag CNC ac at wneud y prosiect yn llwyddiant. Cadarnhaodd Gareth fod safleoedd CNC eraill yn cael eu hystyried ar gyfer datblygiadau Forest Holidays yn y dyfodol.*

Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i Gareth am fynychu a phwysleisiodd fuddiannau'r prosiect masnachol newydd hwn.

*Dywedodd Trefor Jones, yn cynrychioli ei hun fel pysgotwr cregyn o ogledd Cymru, y byddai'n hoffi gweld materion morol yn cael eu trafod mwy mewn cyfarfodydd Bwrdd. Estynnodd wahoddiad i aelodau'r Bwrdd ddod ar ei gwch am ychydig o oriau er mwyn iddo ddangos y pryderon roedd gan 'ffermwyr môr' iddynt.*

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi bod ar un o'r cychod môr ar Afon Menai a'i fod wedi bod yn brofiad diddorol dros ben. Cadarnhaodd y Bwrdd ei ymrwymiad i'r amgylchedd morol unwaith eto. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth eu bod yn y broses o benodi aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth a fydd â chyfrifoldeb penodol dros faterion morol.

***CAM GWEITHREDU – Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth i ystyried trafodaeth ar faterion morol lleol yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ionawr.***